C 3149 1507/8
William Davies

Golwg ar Weinidogaeth Epaphras.

COL. i. 7.

Megis ag y dyſgaſoch gan Epaphras ein hanwyl gyd-was, yr hwn ſydd droſoch chwi yn ffyddlon weinidog i Griſt.

NEU

FARWNAD

Y PARCHEDIG

Mr. LEWIS JONES,

Gynt Gweinidog yr Efengyl yn *Llanedi*, yn Sir *Gaerfyrddin*;

A chwedi hynny yn y *Câs newydd Pen y Bont* yn Sir *Forganwg*,

Lle y bu yn llafurio yn y Weinidogaeth yn ddiwyd ag yn llwyddiannus, defnyddiol ac offerynol; yn Llaw'r Hollalluog i ddwyn llawer o Eneidiau o'r Tywyllwch i'w ryfeddol Oleuni ef.

Cafodd ei ſymmud gan Rhagluniaeth Duw wedi hynny i le a elwir, *Rhoſan* yn *Lloegr*, hyd nes galwodd ei Arglwydd am dano i dderbyn ei Wobr yn y Flwyddyn, 1772.

A GYFANSODDWYD

Gan DAFYDD WILIAM.

CAERFYRDDIN,

Argraffwyd tros yr Awdwr, gan I. ROSS, gerllaw'r Eglwys. 1772. —— Lle gellir cael newydd ei gyhoeddi, Pris 1s.

Hanes Bywyd a Marwolaeth y Parchedig Mr. FAFASOR POWELL.

Salm xxxv. 11. Annerch yr Enllib. *Ecſ.* xxiii. 1.

1.

O Gwrando'r Enllibiwr wŷn aethus weniheithiwr,
Fryd uchel Fradychwr, llawn cynnwrf a llid,
Tynghedfen anghydfod dall awydd dull Llewod,
Cain hynod i'w canfod o'r cynfyd.

2.

Cenhedlwyd cenfigen hen hedyn yn Eden,
Hi lanwodd y ddaeren îs wybren mor ſyn,
Hi dynnodd ryfeloedd myrddiynau hi laddodd,
Echrydus y cwmpodd hi 'r cedyrn.

MARWNAD, &c.

1. HOLL drigolion Seion lân, *Salm* 49.1.
Rhowch gluſt i'm cân o 'ſgrifen;
Mae'n rhybudd dwys i bawb o'r byw, *Deut.* 34.8
A dwrllyd yw ei darllain:
Seren eglur o'r Deheu-dir, *Dan.*12.3.
Un nos gwiwlan 'nawr ni's gwelir,
Hi oleue hwyr a borau, *Phil.*2.15.
Yn llewyrch llawer yn y llwybrau;
O'n golwg ni machludo wnaeth, 2 *Tim.*4.6.
Er briw ag aeth i'n bronnau.

2. Olwyn mawr mewn olwyn yw, 2*Pedr* 1.4.
Rhagluniaeth Duw Jehoſa; *Eze.* 1.16.
Yn y byd hwn ei air a ſef,
Ac yn y nef ddiſgleiria; *Sal.* 100.5
Yn ei law y mae llywodraeth, —89.11.
Croyw degwch creadigaeth,
Hyll heb gelu 'r llyched golau, *Job* 37.5.
Byllt ei enau a'r holl daranau,
Nid oes un cymmal bach yn wag,
O'i ddirgel ragluniaethau. —26.7

3. Duw c'od ſy ſerch trwy ffydd i'r nen, *Heb.* 11.3
Rho dro uwch ben wybrennau;
Wrth borth y nef o ſwn y dda'r *Gen.*28.17.
Clyw ganu ar delynau,
Dihangodd un o'r milwyr grymmus, *Sal.* 124.7.
I'r barodol hardd baradwys;
Yn ddiarſwyd o'r byd iſod, *Phil.*1.21.
I wladychu i'r wlad uchod,
I blith y llu ſydd uwch y llen, *Ma.*2534
I ganu'r Anthem hynod. *Dat.* 14.3.

4. Mae Seion druan wiwlan wawr, *Galar.*1.4.
Mewn galar mawr a chyſtudd, —2.
Cwyno, och'neidio, wylo 'n flin,
Waith colli un Gwiliedydd: *Eſa.* 62.1
Lamp yn rhoddi gwir oleuni,
Mr. Lewis Jones 'wy'n enwi, *Act.*20.36
Ar ei liniau hwyr a borau,
Gwiliau yn ddyfal ar y caerau, *Eſa.* 62.6.
Wrth goffa am y ffyddlon Was,
Pwy lygaid na's diferai? *Act.* 20.25

5. I'r winllan aeth yn forau iawn, *Mat.* 20.1
Nid er mwyn grawn nag elw
Dygodd bwys y dydd a'r gwres, —12.
A'i udgorn bres yn galw;
Bu 'n llefaru mor llafurus, 1*Cor.*15.10
Rinwedd rannau 'r efengyl rymmus,

Dia. 21.25 Dywedai yn groyw wrth bob enw,
Na thâl cario lamp heb olew,
Heb. 11.6. Na phroffes wag heb fywiol ffydd,
Pan ddel y dydd i'n galw.

6. Arferai 'n llon ei arfau 'n llym,
Yn ddaunaw rym ei ddoniau,
Yn union groes i bechod cas,
Heb. 4.12. Fe dynnai maes ei gleddau;
Hardd agweddaidd geiriau gwiwddoeth,
2*Tim.* 3.15 Nefol dymmer megis Timoth,
Llwyddiant Philyb yſpryd Caleb,
Eſ. 23. 1. Er llid gwenwynllid gwawd ac enllib,
Nes myn'd yn llon tu fewn i'r llen,
Heb. 9.5. Ar hyfryd aden Cerub.

1*Ioan* 5.4. 7. Bu 'n ffrwythlon yn y winllan deg,
Flynyddau ddeg a deugain;
Heſ. 14.5. Fel lili hardd mewn anial dir,
Neu hafaidd îr winwydden:
Act. 17.22 Pregethau 'r wiwlan 'fengyl burwen,
Yn difethu fel Paul yn Athen,
Phil. 1.17 Gwych y llwyddodd ffordd y cerddodd,
Yn ddigynnwrf ymhlith cannodd,
Ioan 10.7. Darluniau Griſt y pennaf dlws,
Yn unig ddrws i'r nefoedd.

Iago 1.9. 8. Ni dderbyniodd wyneb dyn,
Sefyllfa o un graddau;
Mat. 16.16 Dros ei anwyl Feiſtr Criſt,
Y gwir fe dyſtiolaethai;
2*Cor.* 3:9. Pregethu 'r gyfraith a'r efengyl,
Hardd naws gannedd mor ddwys gynnil,
Heb. 9.14. Criſt yn aberth dros bechadur,
Sailfaen ſwccwr a ſylfaen ſicir,
1*Cor.* 3.11 O gadarn iechydwriaeth gref!
Y ffordd i'r nef yn gywir.

Eph. 2.20. 9. Gwr duwiol diwyd ddydd a nos,
Act 28.31. A ffyddlon dros ei Arglwydd!
Llefaru wnaeth yn enw 'r Iôr,
Neh. 8.7. Cyfaddas mor gyfarwydd:
Uchel alwai hwyr a borau,
2*Tim.* 4.2. Pechaduriaid o bob graddau,
Ffoi ar hirgam cyn del ergyd,
Mat. 3.7. Ofnadwy danllyd y farn ddychrynllyd,
1*Cor.* 9.24. Tro 'r pyrth ar led na ſafwn gam,
Ond rhedwn am ein bywyd.

Sal. 32.2. 10. Yſpryd tawel hardd diſtwr,
Dwys gadarn wr dyſgedig;
1*Cor.* 1 20 Nid bydol ddoeth ond nefol iaith,
Godidog waith cloedig;
Mat. 13.52 Eglurau 'n gyſon i'r duwiolion,
I dir golau ryw ddirgelion,

A'i yſprydol allwedd mor ddeallus, *Salm* 119.
Yn dacclo yn ddílos glymmau dyrus, 130
Agorau'r ſel eglurau'r ſail, *Dat.* 6.7.
Oruchel adail iachus.

11. Gwr defnyddiol yn ei ddydd,
O blaid y ffydd ſe ymdrechodd; *Phil.* 1.27
Nid oedd yn llas i wneuthur lles,
Wr ffynnol nes gorphennodd; 2 *Tim.* 4.7
Darllain ei deſtun o flaen y werin,
A'i arfau dwfwn cleddau daufin; 2*Cor.* 10.4
Cymhellau 'n ufudd bawb i'r nodded:
Tro'r pyrth heb gelu 'nghil y gored *Luc* 13.24
Deiſyfai 'n daer ar bawb yn llyn,
Eu dyfod cyn eu gaued. *Mat.*25.10

12. Bu 'Nghymru 'n daer trwy'r dwyrain dir,
A phedair ſir yn Lloeger;
A'i liniau ar lawr a'i lygaid llon, *Act* 20.36.
Yn union i'r uchelder:
Fe weddiau fé riddfannau, *Salm* 88.2.
Harddwych athro ſe bregethai;
Nid rhyw weiniaeth na gwag araith, *Eſa.* 30.10
Am ddwys bigo'r oedd ei bregeth,
Cyfammod Duw a Chriſt yn ſail, *Heb.* 8.10.
A thwr rhag ail farwolaeth. 2*Sa.* 22.51

13. Fel Aaron hyfryd hardd ei ddrych,
Oedd ſwn ei glych nefolaidd; *Eccſ.* 28.34
Fe gododd floedd dros Frenhin nef,
A'i ddoniau 'n efangylaidd: 1*Cor.* 12.1
Cyfrannai 'n dawel i'r rhai duwiol,
Ymhob achlyſur faeth iachuſol, 1 *Pedr* 5.2
Gwin gyſſuron i'r trwm galon,
Fel diſeth dorriad ſammaeth dirion, 1*Theſ.*2.7.
Ni dderbyniodd mewn un man,
Wynebau 'r annuwiolion. *Jer.*1.7,8.

14. Pwy ddichon lai nâ wylo ma's, *Deut.*34.8
Wrth goffa gwas mor ffyddlon;
Fe glwyfa calon dyn yn friw, *Act.* 20.37
A'r cluſtiau glyw 'r newyddion;
Mae llef arw hyn o lafar, —11.22.
Yn uchel alw am wiſg o alar,
Fod gwinllan Ieſu lle mae eu lafur, *Eſa.* 5.2.
Mor denau weithiau o ffyddlon weithwyr,
Trugaredd rad fod hon yn fyw, *Sal.*102.13
Gan amled yw 'r ſegurwyr. *Mat.* 20.3

15. Fel rhyw bla ſe gododd ple,
Croes anian 'n nhre Caſnewydd; *Gal.* 2.11.
Amcanwyd hau bod arnynt hwy,
Wag leiſiau trwy 'r eglwyſydd: *Col.* 2.8.
Diotrephes, oer yw'r hanes,
Blin yw coffa gwag ei gyffes; 3 *Ioan* 9

Rhyw ſur hedyn mawr ſiaradus,
3 Ioan 10 A'i ddroganau gwag drygionus,
A rhai anwyl plant ei fam,
—11. Y gwnaeth gam gwaradwyddus.

Eſa. 28.1. 16. Ni thâl bod â blodau a dail,
Job 18.16. A brigau arail dilys;
*Mat.*13.22 Ond bydd ffrwyth gwae ddyn er bod
—21.19. Melldithier coed heb ffigys;
—13.5 Maſwedd dinag maeſydd dreinog,
*Ma.*23.27 Gair profadwy bedd pryfedog,
*Jer.*13.23 Llewpard croenllyd prennau crynllyd,
Mat. 13.6 Gwraidd o'r gwaelaf blodau gwiwlyd,
*Hoſ.*10.1. Gwinwydd gwyllt heb fod yn ddof,
*Jud.*12 Nac arwydd nof na bywyd.

*2Tim.*2.15 17. Caiff gweinidogion ffyddlon ffydd,
Ar erfyn ddydd gyfarfod;
Ioan 10.12 A gododd ſioedd yn erbyn blaidd,
I gwrdd a'i praidd fel priod;
*Rhuf.*8.28 Y rhai a alwodd Duw'n ol arfaeth,
Wych 'tifeddion yr etifeddiaeth:
Ioan 12.37 'R anghredadwy waith cam-gredu,
A droir yn ebrwydd yn iſel obry,
*Rhuf.*4.20 Rhown lef trwy ffydd at Dduw yn llyn,
Eph. 3.17. Rhag gw'radwydd ein gwaredu.

18. Fe arddelodd Duw e'n wir,
*1Cor.*15.10 Lle bu yn hir lafurio;
Fe ddwg yr hadau hyn ryw ddydd,
*2Cor.*7.3. Gynhauaf dedwydd iddo;
Pob tywyſen 'ſe a gaſgla,
Sal. 50. 5. Lân ddwys ufudd law Jehofa,
Wrth y cannoedd Duw a'i cynnill,
*Ecſ.*23.16 I'w lân babell ar wyl y pebill;
Un o wall ni bydd ar goll,
*2Tim.*2.19 Mae'r ſylfaen oll yn ſefyll.

19. Cynhauaf mawr yw diwedd byd,
Ma. 13.39 I gaſglu'r ŷd i'r unlle,
Y gwenith pur i'r nefoedd lân,
—30. Anhyfryd dân i'r efrau:
Mae 'r crymmanau 'nawr yn barod,
*Dat.*14.15 Gan weithwyr uchel oddi uchod;
Angylion grymmus gogoneddus,
*Mat.*24.31 Wrth arch ddeallus Duw a'i ewyllys,
1Cor. 6.2 I gaſglu 'r ſeintiau hardd eu drych,
Luc 23.43 I'r hyfryd wych baradwys.

20. Addfwynder Moſes weddus wedd,
Amynedd a feddiannodd:
2 Pedr 1.6 Hyf dra Peder cariad Iôn,
Ag fel yr oen dioddefodd;
Luc 10.3 Bethel wiwlwys, aur glod eglwys,
A'i cornelau fel tŷ Cornelius:

Toddai ei calon wrth gŵyn y gweddwon, *Act.* 10.2.
Rhoi eluſen yn ddiloeſon, —4.
Ar union ſail trwy dduwiol zel,
Nid gogan tel rhai gweigion. *Mat.*6.2.

21. Bydd coffa ei enw yr oes a ddel, *Sal.*102.18
Gan rai o ſêl duwioldeb;
Gan bob graddau a phob oed *2Cor.* 5.16
Na chanfu erioed ei wyneb;
Fe gair gweled geiriau hynod, *Ma.* 23.29
Ar wyneb hyfryd ei garreg feddrod,
Y man lle gorwedd mewn daear-fedd, *1Br.*13.31
Hwyr a borau ei enw'n beraidd,
Yn ddiſglair fel yr haulwen ddrych, *Mat.*13.43
Daw maes fel gwych etifedd. *Rhuf.* 8.17

22. Colofn gref yn eglwys Criſt, *2Cro.* 3.17
A ffyddlon dyſt godidog:
Tra fu ar daith mewn anial-dir, *Act.* 20.22
Ffynnadwy wir weinidog;
Gweithiau yn gywir dros ei Feiſtir, —23.
Rhoddodd ſugn ni bu ſegur,
Cwrs ei yrfa gwres ac oerfel, —24.
Gofalau 'n dawel am y deml,
Dymunodd cael ei meini dryd, *Eſa* 54 11.
Yn llyfn gyd wrth lefel. *1Cor.* 3.10

23. Fe geir ei wel'd ryw ddydd a ddel,
Yn ddiſglair fel yr haulwen: *Dan.* 12.3.
A'r byd fel pellen dan ei draed,
Uwch ffurfiad y ffurfafen, *1Theſ.* 4.17.
A'i ben yn benna' fydd heb ammau,
A choron bur lân llawn o berlau, *2Tim.* 4.8.
Cyfiawnder Ieſu yn ei addaſu,
Fel Brenhin graſol caiff deyrnaſu, *1Pedr* 2. 9
Mewn awen boeth na dderfydd byth,
Fe gaiff yn ddilyth ganu. *Dat.* 15.3.

24. Duw ſo cyſſur fry o'r nen,
I'w ber-winwydden dduwiol; *Sal.*128.3.
Bywiol gred a Chriſt yn graig,
Ei raſol wraig fynweſol; *Diar.*31.10
A'i ferch annwyl heb wan feddwl,
Hwy gan ganmol heb un cwmmwl; —29.
Can heb orphen draw'r Iorddonen,
Lânwych hylwydd uwch yr haulwen, *Dat.* 5.13.
Nid eir ar goll o'r nefol gell, *Ioan* 10.28
Gwir raddol gwell nâ Eden. —10.

25. Yn drugain mlwydd ac un ar ddeg,
Ei yrfa wiw-deg redodd;
Gadawodd hyn o anial fan, *Joſ.* 23.14,
A'r llinin arian dorrodd, 15
Un mil ſaith cant warant hylwydd, *Pre.*12.6,7
Orau fawrglod oed ein Harglwydd; —8.9.10.

Ni welwn fod angau dattod holl nattur.

Trugain yſtig clywch ar oſteg,
Yn dra-diddan gyd â deudeg;
Ca'dd ef ei wys i Seion fryn,
Chwanegai ddim yn 'chwaneg.

Ychydig o Bennillion am Hunan-ymholiad, wedi ei chymmeryd allan o'r 2 *Cor.* xiii. 5. *Salm* cxix. 23. *Job* xxxi. 6. *Diar.* xvii. 3. *Jer.* xi. 20.

Hag. 1.7.

1. YStyria O ddyn! a bydd yn bwyllig,
Eiſtedda lawr a gwrando 'chydig;
Salm 49.1. Os rhoi di gluſt, mi gana ronyn,
Mat. 13.35 Yſtyria 'n bryſur bwys fy nheſtun.

2. O holl gweſtiynau y byd yma,
Act. 16.30 Holi'th hun yw'r cweſtiwn penna',
Ac os credu 'r gwir yn groyw,
Mat. 19.25 Nid oes cweſtiwn fwy na hwnnw.

1 *Ioan* 4.2. 3. Chwilia 'n fanwl wraidd dy yſpryd,
Chwilia beth yw gwir gyfnewid;
Hoſ. 10.1. Byth ni all corſennau gweigion,
Mat. 7.27. Sefyll fawr pan ddelo'r 'ſtorom.

4. Chwilia beth yw ffydd gadwedig,
Phil. 1.10. Gwahan rhwng hon a rhyw ddychymyg;
Gwiwo wnaiff y blodau hardda,
Jona 4.7. Yn ebrwydd iawn fel cyſgod Jona.

Mat. 7.26. 5. Gwilia rhag y tir tywadog,
'Mofyn am y graig ſefydlog;
1 *Cor.* 3 11 Hon yw ſylfaen y gwirionedd,
Luc 10.15 Rhag cwympo 'n iſel yn y diwedd.

6. Bydd di ddoeth ac na fydd angall,
Gal. 6.4. Chwilia'th hun cyn chwilio arall;
Ac os chwili 'th hun yn gywir,
Diar. 5.14. Di gai fwy nag allu wneuthur.

Job 28.14. 7. Chwilia'r moroedd mawr i'r gwaelod,
Chwilia'r ddaear a'i holl ſorod;
—36.28. Chwilia'r wybren a phob cwmmwl,
Jer. 17.9. Mae'r galon ddrwg yn fwy nâ'r cwbwl.

8. Chwilia nattur pob planhigyn,
Preg. 2.5. O fach i fawr o'r brig i'r gwreiddyn;
Mat. 16.3 Planhedau mawr a'r lloer a'r haulwen,
Salm 40.5 Ond chwilio'th hun fy' waith anorphen.

DIWEDD.